# Pecyn Cyhoeddus

Cyngor Sir
CEREDIGION
County Council

Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa,
Aberaeron, Ceredigion SA46 0PA
ceredigion.gov.uk

Dydd Gwener, 16 Mehefin 2023

Lisa Evans

**Annwyl Syr / Fadam**

**Ysgrifennaf i'ch hysbysu y cynhelir Cyfarfod o Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus yn Hybrid - Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac dros ZOOM., Dydd Iau, 22 Mehefin 2023 am 10.00 am i drafod y materion canlynol:**

**1. Ymddiheuriadau**

**2. Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio)**
**Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

**3. Erydu Arfordirol, Llifogydd a Newid Hinsawdd (Tudalennau 3 - 20)**

**4. Creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff (Tudalennau 21 - 30)**

**5. Y Gwasanaeth Rheoli Datblygu (Tudalennau 31 - 34)**

**6. Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion (Tudalennau 35 - 40)**

**7. Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu (Tudalennau 41 - 44)**

**Atgoffir yr Aelodau y dylent lofnodi'r Gofrestr Bresenoldeb**

**Darperir Gwasanaeth Cyfieithu ar y Pryd yn y cyfarfod hwn ac mae croeso i'r sawl a fydd yn bresennol ddefnyddio'r Gymraeg neu'r Saesneg yn y cyfarfod.**

**Yn gywir**

**Miss Lowri Edwards**
**Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd**

**At: Gadeirydd ac Aelodau Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus**
**Weddill Aelodau'r Cyngor er gwybodaeth yn unig.**

**CYNGOR SIR CEREDIGION**

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus |
| **DYDDIAD:** | 22 Mehefin 2023 |
| **LLEOLIAD:** | Siambr y Cyngor, Penmorfa a Zoom |
| **TEITL:** | Erydu Arfordirol, Llifogydd a Newid Hinsawdd |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Cynnig diweddariad am ddatblygiad Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd |
| **RHESWM Y MAE'R PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH** | Monitro'r cynnydd sy'n cael ei wneud |

**Cefndir:**

Mae newid hinsawdd yn golygu y byddwn yn wynebu digwyddiadau tywydd mwy aml neu ddifrifol megis llifogydd, sychder a stormydd. Mae'r digwyddiadau hyn yn dwyn 'risgiau ffisegol' sy'n cael effaith uniongyrchol ar gymunedau ac y mae ganddynt y potensial i effeithio ar yr economi.

Mae rhannau o arfordir Ceredigion yn dueddol o gael eu heffeithio gan erydu arfordirol a llifogydd, ac mae rhai cymunedau mewndirol mewn perygl o ddioddef llifogydd afonol a cholli tir gan gyrsiau dŵr.

Gallai'r effeithiau fod yn bellgyrhaeddol, wrth i randdeiliaid wynebu canlyniadau a allai fygwth bywydau neu newid bywydau, gan effeithio ar sectorau mawr o'r Sir/Cyngor. Yn ogystal, gallai methu lleihau effeithiau newid hinsawdd arwain at ganlyniadau amgylcheddol, ariannol ac i enw da y Cyngor gan gynnwys ar ffurf cosbau ariannol am fethu cyflawni targedau Llywodraeth Cymru ynghylch rheoli carbon a bioamrywiaeth. Bydd effeithiau anuniongyrchol yn cynnwys newidiadau i'r pryfed, y plâu a'r clefydau y byddant yn cytrefu ac yn effeithio ar ein hamgylchedd. Yn ogystal ag effeithiau uniongyrchol y rhain, bydd yr effeithiau ar amser staff a'r costau eraill o ddelio â'r rhain yn arwyddocaol. Mae colli brigdwf oherwydd Clefyd Coed Ynn eisoes yn arwain at ganlyniadau ar gyfer microhinsoddau lleol a bydd yn gwaethygu effeithiau newid hinsawdd ac yn cyfrannu atynt hefyd.

Cydnabyddir bod yn rhaid i ni arwain trwy esiampl a gwneud popeth y gallwn i leihau newid hinsawdd yn y dyfodol a mynd i'r afael â'r risgiau sy'n gysylltiedig ag ef, a'u lleihau. Rhaid datblygu a gweithredu strategaethau a mentrau polisi sy'n cynnwys elfennau ar gyfer cydnerthedd ecosystemau, gwelliannau bioamrywiaeth a chynlluniau lleihau llifogydd os ydym yn mynd i lwyddo i leihau ein hôl troed carbon a lleihau'r risg i'n prif seilwaith, ein hasedau, ein preswylwyr a'n cymunedau a'n tirlun.

## Cyfrifoldebau Erydu Arfordirol a Llifogydd

### Erydu arfordirol

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn Awdurdod Diogelu'r Arfordir dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949, a dan y Ddeddf honno, mae ganddo bwerau caniataol i gyflawni Gwaith Diogelu'r Arfordir er mwyn diogelu tir mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol yn ei farn ef.

Mae Deddf Rheoli Llifogydd a'r Arfordir 2010 yn diffinio rolau a chyfrifoldebau 'Awdurdodau Rheoli Risg'. Yng Nghymru, y rhain yw NRW, y 22 awdurdod lleol yng Nghymru (sy'n cyflawni rôl Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol), awdurdodau priffyrdd a chwmnïau dŵr a carthffosiaeth. Ceir cyrff eraill sydd â rôl anstatudol o fewn FCERM, gan gynnwys tirfeddianwyr preifat a pherchnogion asedau seilwaith megis Network Rail a'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol.

Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru, https://www.gov.wales/national-strategy-flood-and-coastal-erosion-risk-management-wales

Dan y Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru ddatblygu, cynnal, a gweithredu strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru.

### Llifogydd Arfordirol ac Afonol

Dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, mae gofyn i Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol (LLFAs) nodi a mapio peryglon a risgiau sy'n ymwneud â llifogydd. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfrifoldeb ar LLFAs i ddatblygu, cynnal, gweithredu a monitro strategaeth ar gyfer rheoli perygl llifogydd lleol hefyd. http://www.ceredigion.gov.uk/resident/coast-countryside/coastal-flood-risk-management/local-flood-risk-management

Mae gan awdurdodau lleol unedol yng Nghymru bwerau i reoli perygl llifogydd lleol fel Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol, yn unol â Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru (NRW) yn gyfrifol am reoli risg llifogydd gan brif afonydd a'r môr. Yn ogystal, mae NRW yn cyflawni gweithgareddau penodol ar gyrsiau dŵr cyffredin er mwyn lleihau'r risg, megis newid lefelau dŵr a gwaith sy'n bodoli eisoes. Mae gan NRW rôl trosolwg strategol a goruchwyliaeth gyffredinol hefyd.

### Cynllun Rheoli Traethlin 2

Er mwyn mesur y risg i'n cymunedau arfordirol, datblygodd Cyngor Sir Ceredigion, gan weithio gydag Awdurdodau Lleol eraill, Gynllun Rheoli Traethlin Gorllewin Cymru (SMP2) http://www.ceredigion.gov.uk/resident/coast-countryside/coastal-flood-risk-management/shoreline-management-plan-smp/

Cwblhawyd SMP2 yn 2012 ac mae'n cynnig asesiad ar raddfa fawr o'r risgiau sydd ynghlwm â phrosesau arfordirol sy'n arwain at erydu a llifogydd, gan gyflwyno fframwaith polisi er mwyn lleihau'r risgiau hyn i bobl ac i'r amgylchedd datblygedig, hanesyddol a naturiol mewn ffordd gynaliadwy ymlaen i'r ail ganrif ar hugain.

Cynhyrchwyd SMPs ar draws y wlad am y tro cyntaf yn ystod y blynyddoedd ar ôl 2000, a chwblhawyd yr adolygiad cyntaf yn 2012, a oedd yn ystyried:

- Pryderon a oedd yn bodoli eisoes
- Y risgiau newydd sy'n gysylltiedig â lefel y môr yn codi
- Y manteision y mae amddiffynfeydd yn eu cynnig yn erbyn llifogydd yn y dyfodol
- A ydym yn gallu parhau i gynnal amddiffynfeydd
- Sut y mae rheoli'r arfordir ac aberoedd yn effeithio ar fuddiannau eraill

Mae risg llifogydd ac erydu yn fygythiad arwyddocaol sy'n effeithio ar yr arfordir ac ar gymunedau ar hyd arfordir Ceredigion, ac mae SMP2 wedi nodi datrysiadau integredig a fydd yn sicrhau rheolaeth gynaliadwy yr arfordir ar gyfer y dyfodol.

Mae SMPs yn cyfrannu at y ddealltwriaeth well o draethlin y DU, er mwyn datblygu fframwaith polisi tymor hir ar gyfer rheoli arfordirol a rheoli amddiffynfeydd arfordirol mewn ffordd gynaliadwy. Cyflwynwyd yr SMPs i reoli risg yn wreiddiol, ond mae'r rhai diwygiedig wedi mabwysiadu safbwynt mwy holistig, gan bennu gweledigaeth ar gyfer rheoli'r arfordir dros y 100 mlynedd nesaf

Rhannwyd arfordir Gorllewin Cymru yn ugain parth datblygu polisi, ac roedd 6 o'r parthau hyn yn cynnwys rhan o arfordir Ceredigion:

- PDZ5 – Aber Afon Teifi
- PDZ6 – Aber-porth i Geinewydd
- PDZ7 – Ceinewydd i Ffos-y-ffin
- PDZ8 – Ffos-y-ffin i Lanrhystud
- PDZ9 – Llanrhystud i Sarn Cynfelin
- PDZ10 – Sarn Cynfelin i Donfannau

Cynigiwyd 'Bwriad Rheoli' ar gyfer pob darn o arfordir, ac er bod SMP2 yn ddogfen anstatudol, mae'n cynnig y fframwaith sy'n sylfaen ar gyfer y datblygiad yn y parth arfordirol.

Gellir gweld enghraifft o'r dull gweithredu integredig a chynaliadwy tuag at amddiffyn yr arfordir yn Borth, lle y mae dau gam cyntaf cynllun amddiffyn yr arfordir a adeiladwyd yn cynrychioli dull gweithredu addasol tuag at amddiffyn y pentref.
Un o allbynnau SMP2 oedd datblygu 'Cynllun Gweithredu', y mae Ceredigion wedi adrodd am gynnydd yn ei erbyn yn ddiweddar iawn i LIC, ac mae fersiwn cryno o'r daenlen a gyflwynwyd wedi cael ei gynnwys fel Atodiad A.

**Monitro Traethau**

Un o brif 'gamau gweithredu' SMP2, ac a gofnodir yn y Cynllun Gweithredu mewn perthynas ag arfordir Ceredigion, yw monitro arfordirol.

Mae Cyngor Sir Ceredigion (a Chyngor Dosbarth Ceredigion cyn hynny) wedi bod yn coladu rhywfaint o ddata monitro traethau er 1995. Ar yr adeg honno, coladwyd y proffiliau traethau gan arolwg topograffeg, ond er 2006, coladwyd y wybodaeth trwy gyfrwng LIDAR.

Mae LIDAR (Canfod Golau a Phellterau) yn ddull mapio ac yn system a osodir ar awyren sy'n mesur pellteroedd i darged trwy oleuo'r targed gyda golau laser pwls ac yna, sy'n mesur y pylsiau a adlewyrchir gan ddefnyddio synhwyrydd. Yna, gellir defnyddio gwahaniaethau rhwng amseroedd dychwelyd y laser a thonfeddi i greu arolygon digidol o'r tir.

Defnyddiwyd data mapio yn hanesyddol er mwyn cyfrannu at raglen monitro flynyddol a oedd yn cynnig crynodeb o'r newidiadau i broffil traeth dros gyfnod o 12 mis. Er 2015, o ganlyniad i bwysau ariannol, ni chomisiynwyd yr adroddiad blynyddol, ond mae'r wybodaeth a goladwyd yn parhau i fod yn hynod werthfawr wrth ddatblygu cynlluniau amddiffyn arfordirol.

2017 oedd yr ail flwyddyn ar hugain pan gynhaliwyd arolygon traeth ar hyd yr arfordir, ac o ganlyniad, coladwyd data dros gyfnod hir erbyn hyn, ac mae hyn wedi galluogi'r Cyngor i nodi tueddiadau hirdymor o ran croniant ac erydu ar hyd traethau pan gaiff cynlluniau eu datblygu.

Mae'r 15 lleoliad oddi ar yr arfordir lle'r oedd Cyngor Sir Ceredigion wedi gwneud gwaith monitro yn 2017 fel a ganlyn:

- Pen Yr Ergyd/Aber Afon Teifi
- Aber-porth
- Tre-saith
- Llangrannog
- Bae Ceinewydd
- Llanina
- Traeth y De Aberaeron
- Traeth y Gogledd Aberaeron
- Aber-arth
- Llansanffraid
- Llanrhystud
- Tan-y-Bwlch
- Y Ro Fawr (De Aberystwyth)
- Rhodfa Fuddug a Glan-y-Môr (Gogledd Aberystwyth)
- Borth i Ynys-las

Amcan y gwaith monitro yw cyfrannu at benderfyniadau ac arferion rheoli arfordirol lleol. Wrth ychwanegu pob blwyddyn o ddata newydd i'r rhaglen fonitro, mae modd nodi tueddiadau a newid dros y tymor hir. O ganlyniad i'r data hwn, nid yn unig y gall y penderfyniad i ymyrryd fod yn un mwy gwybodus, ond mae modd ystyried y cwestiwn ynghylch y ffordd orau o ymyrryd hefyd.

Cyfrannwyd at ddyluniadau cynlluniau amddiffyn yr arfordir yn Nhraeth y Gogledd Aberaeron a Borth (Camau 1 a 2) gan ddata a goladwyd yn ystod y rhaglen fonitro barhaus, ac mae'r data yn cael ei ddefnyddio nawr i gynorthwyo wrth gynllunio cynlluniau amddiffyn arfordirol yn Aberystwyth ac yn Harbwr/Traeth y De Aberaeron.

Defnyddiwyd y dadansoddiad o ddata hanesyddol yn ystod datblygiad SMP2 i ddatblygu'r rhaglen fonitro, fel bod modd datblygu darlun cyffredinol o esblygiad traethau.

Ar ôl sefydlu Canolfan Monitro Arfordirol Cymru (WCMC) yn 2018, mae'r cyfrifoldeb (ac felly, cyllid gan LlC) dros goladu gwybodaeth monitro arfordirol ar ysgwyddau WCMC, ac ni all Cyngor Sir Ceredigion wneud cais am gyllid ar ffurf grant gan Lywodraeth Cymru mwyach i dalu am goladu gwybodaeth LIDAR i gynorthwyo ei rhaglen monitro arfordirol.

Mae Canolfan Monitro Arfordirol Cymru (WCMC) yn parhau i arolygu'r arfordir a gaiff ei ddiogelu ar ran CSC, ac mae eu defnydd o dechnoleg yn cynyddu cyfanswm a chywirdeb y data y mae modd ei gasglu. Yn ogystal, mae WCMC yn dymuno gweithio mewn partneriaeth ag Adran Pensaernïaeth a Pheirianneg Sifil – Prifysgol Caerfaddon, sy'n dymuno gosod sganiwr laser parhaol yn Borth am gyfnod o 12 mis fel rhan o gyflwyniad ar gyfer y Pwnc Amlwg ar Draethau Graean a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Cyngor Ymchwil Amgylchedd Naturiol (NERC) sy'n werth £3m, ac a fydd yn cynorthwyo wrth fonitro symudiad y traeth graean fel rhan o Amddiffynfa Arfordirol Borth er mwyn sefydlu rhaglen weithredol a chynnal a chadw yn y dyfodol.

Cefnogir y cynlluniau canlynol gan grantiau Llywodraeth Cymru sy'n ceisio rheoli risg llifogydd mewn cymunedau y nodwyd bod eiddo ynddynt wedi dioddef llifogydd yn hanesyddol. Adroddir yr holl gynlluniau Grant a ariannir gan FCERM LlC i Dîm Perygl Llifogydd ac Arfordirol LlC bob chwarter gyda diweddariadau am y cynnydd a hawliadau ariannol

**Lliniaru Llifogydd, Pentref Llandre**

Cyfanswm y Grant a ddyfarnwyd - £55,000
Dyddiad Dod i Ben y Grant – 30/06/2023

Penodwyd Atkins yn ymgynghorwyr [dyddiad] i gynnal asesiad Achos Busnes Amlinellol o'r problemau llifogydd yr adroddwyd amdanynt i'r gogledd o'r pentref. Mae'r llwybr gollwng o'r dalgylch yn llifo i ddau bwll arafu a adeiladwyd o friciau, sy'n rhyddhau dŵr wyneb trwy seiffon dan lein Rheilffordd Cambria i'r cwrs dŵr.

Mae Atkins wedi modelu llif y dŵr wyneb hyd yn hyn, ac maent yn aros am ddata arolygu gan Network Rail er mwyn gallu cwblhau'r gwaith OBC.

**Risgiau** – ni cheir gwybodaeth gan NR mewn pryd er mwyn gallu cwblhau'r asesiad. Mae LlC wedi cael eu diweddaru am y cynnydd trwy gyfrwng

Adroddiadau Chwarterol ac mae Ffurflenni Amrywio ar gael ar gyfer y cynllun, y bydd gofyn cael amser/arian ychwanegol i'w llenwi.
**Lliniaru** – Cais Amrywio Ychwanegol i LIC er mwyn caniatáu i'r ymgynghorydd gwblhau'r OBC
**Canlyniadau Disgwyliedig** – Deall mecanweithiau llif llifogydd a maint y gwaith arafu sy'n ofynnol er mwyn rheoli'r llif i atal eiddo rhag dioddef llifogydd. FBC i adeiladu unrhyw seilwaith er mwyn rheoli risg gormodol gan lifogydd

**Ffrwd Borth**

Cyfanswm y Grant a ddyfarnwyd - £50,000
Dyddiad Dod i Ben y Grant – 31/03/2024

Penodwyd Amey Ltd ym mis Medi 2022 i gynnal achos Busnes Amlinellol i asesu mecanweithiau draenio a llifogydd y ffrydiau draenio amrywiol sy'n rheoli dŵr wyneb o ddalgylchoedd sy'n llifo o Borth Uchaf. Cynhaliwyd cyfarfod cychwynnol a chytundeb cwmpas gydag Amey Ltd, fodd bynnag, ni fu unrhyw gynnydd er gwaethaf ceisiadau Swyddogion am ddiweddariadau a phenderfynwyd terfynu'r contract ac adroddwyd am hyn i LIC. Adroddir am berfformiad gwael Amey i'r swyddogaeth gaffael gan ddefnyddio gweithdrefn DPA Contract Fframwaith. Mae LIC wedi cymeradwyo amrywiad grant er mwyn parhau gyda phrosiect OBC yn 2024 gydag ymgynghorydd amgen. Caiff unrhyw waith a gyflawnwyd gan Amey Ltd ei adfer a'i drosglwyddo i'r ymgynghorydd newydd ar ôl iddynt gael eu penodi.

**Risgiau** – Oedi wrth benodi er mwyn gallu cyflawni'r gwaith erbyn dyddiad cau y grant.
**Lliniaru** – Cais Amrywio ychwanegol i LIC er mwyn caniatáu i'r ymgynghorydd gwblhau'r OBC
**Canlyniadau Disgwyliedig** – Deall mecanweithiau llif llifogydd yn Borth a lle yr adeiladwyd dros y ffrydiau, unrhyw adrannau sydd wedi dymchwel ac effeithiau posibl y rhain ar lifogydd yn rhan isaf Borth o'r tir (nid y môr)

**Capel Bangor**

Cyfanswm y Grant a ddyfarnwyd - £80,000
Dyddiad Dod i Ben y Grant – 30/06/2023

Penodwyd WSP i gynnal adolygiad o'r Adroddiad Asesu Rhagarweiniol a gynhaliwyd yn 2015 yn dilyn llifogydd 2012 er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gofynion asesu prosiect LIC a diweddaru'r data. Mae'r OBC a gyflawnir wedi cwblhau'r modelu ac mae gofyn i NRW adolygu ac arfarnu'r modelu cyn y bydd modd symud datrysiadau dylunio yn eu blaen i'w hargymell. Mae'r model wedi bod gydag NRW er Ch3 22-23, ac ni ellir gwneud unrhyw gynnydd pellach nes y caiff hwn ei adolygu.

**Risgiau** – Oedi parhaus gan NRW.
**Lliniaru** – Cais Amrywio ychwanegol i LIC er mwyn caniatáu i'r ymgynghorydd gwblhau'r OBC
**Canlyniadau Disgwyliedig** – Disgwylir i ddatrysiadau diwygiedig gan gynnwys cynllun Rheoli Risg Llifogydd Naturiol gael eu dwyn ymlaen i FBC.

**Tal-y-bont**

Cyfanswm y Grant a ddyfarnwyd - £80,000
Dyddiad Dod i Ben y Grant – 30/06/2023

Penodwyd WSP i gynnal adolygiad o'r Adroddiad Asesu Rhagarweiniol a gynhaliwyd yn 2015 yn dilyn llifogydd 2012 er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â gofynion asesu prosiect LIC a diweddaru'r data. Mae'r OBC a gyflawnir wedi cwblhau'r modelu ac mae gofyn i NRW adolygu ac arfarnu'r modelu cyn y bydd modd symud datrysiadau dylunio yn eu blaen i'w hargymell. Mae'r model wedi bod gydag NRW er Ch3 22-23, ac ni ellir gwneud unrhyw gynnydd pellach nes y caiff hwn ei adolygu.

**Risgiau** – Oedi parhaus gan NRW.
**Lliniaru** – Cais Amrywio ychwanegol i LIC er mwyn caniatáu i'r ymgynghorydd gwblhau'r OBC
**Canlyniadau Disgwyliedig** – Disgwylir i ddatrysiadau diwygiedig gan gynnwys cynllun Rheoli Risg Llifogydd Naturiol gael eu dwyn ymlaen i FBC.

Cafwyd y Drwydded Forol mewn perthynas â CDS a chaniatâd cynllunio Aberaeron a disgwylir penodi contractwr tua canol 2023. Mae achosion busnes yn cael eu datblygu ar gyfer y cynlluniau posibl yn Aberystwyth, Borth a Llangrannog.

**Diweddariadau diweddaraf – Arfordirol**

**Cynllun amddiffyn yr Arfordir Aberaeron**

- Rhoddwyd caniatâd cynllunio.
- Proses asesu tendr wedi'i chwblhau
- Parhau i ddiweddaru adroddiad FBC.
- Cwblhau lluniadau a dogfennau adeiladu.
- Arolwg dyfrgwn wedi'i gwblhau
- Caniatâd FRAP NRW wedi'i sicrhau.
- Caniatâd SUDS wedi'i sicrhau.

**Cynllun amddiffyn yr Arfordir Aberystwyth**

- Asesiad Ecolegol (astudiaeth desg) – 100% wedi'i gwblhau.
- Geomorffoleg (astudiaeth desg) - 50% wedi'i gwblhau.
- Gwaith ar opsiynau morglawdd – 50% wedi'i gwblhau.
- Geodechnegol (astudiaeth desg) – 80% wedi'i gwblhau.
- Asesiad Tirlun – 60% wedi'i gwblhau.
- Modelu rhifol morgloddiau sydd wedi'u cynnwys mewn rhestr fer – 25% wedi'i gwblhau.

**Cynllun amddiffyn yr Arfordir Borth – Cam 1 a 2**

Mae angen cynnal adolygiad perfformiad arfordirol a pharatoi Cynllun Rheoli parhaus posibl o'r ardal wrth ben deheuol gwaith Cam 2. Yn y dyluniad, cydnabuwyd y bydd angen gwneud ychydig waith parhaus i reoli gwaddodion efallai, gyda'r posibilrwydd o ailgylchu gwaddodion yn lleol er mwyn newid lefel y diogelwch wrth ymateb i brosesau arfordirol naturiol.

Yn gyffredinol, mae'r cynllun yn perfformio yn ôl y cynllun/disgwyl, ond ceir lleoliadau unigol sy'n peri pryder ac y mae gofyn ymchwilio iddynt a'u hystyried ymhellach fel rhan o'r rhaglen fonitro.

Mae ymgynghorwyr sy'n ymwneud ag SMP 1 a dylunio dyluniadau Cam 1 a 2 Borth, a gyflenwyd â'r holl ddata angenrheidiol trwy gyfrwng Grŵp Arfordirol Gorllewin Cymru a Chanolfan Monitro Cymru, wedi cael eu comisiynu i gyflawni'r gwaith canlynol fel rhan o'r cynllun rheoli parhaus,

- Adolygu meini prawf rheoli
- Ymddygiad Traeth
- Adolygiad Diogelu
- Adolygiad Rheoli

**Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Borth – Cam 3**

- Mae NRW yn gweithio ar eu OBC eu hunain ar gyfer y Dyfi a'r Leri ar hyn o bryd.
- O ganlyniad i'r uchod, mae CSC wedi atal eu OBC nhw am y tro, nes i NRW ddal i fyny.
- Mae swyddogion CSC yn parhau i fynychu cyfarfodydd cynnydd gyda swyddogion o NRW a'u hymgynghorwyr.
- Yn dilyn cyfarfodydd gydag NRW a'u hymgynghorwyr, mae wedi dod yn amlwg na fydd eu OBC nhw am y Dyfi a'r Leri yn cael ei gwblhau erbyn 30 Mawrth 2023 ac fe allai barhau i mewn i 2024. Mae CSC yn canlyn NRW i gyflymu'r broses o gwblhau'r gwaith.
- Bydd CSC yn parhau i gydweithio'n agos gydag NRW a'u hymgynghorwyr ynghylch y ddau OBC.
- **RISG.** Caiff y rhaglen ei rheoli gan gynnydd NRW ar eu OBC.

**Cynllun Amddiffyn yr Arfordir Llangrannog**

- Cwblhawyd trafodaethau gydag ymgynghorydd CSC ynghylch yr ymgynghoriad cyhoeddus.
- Mae gwaith wedi cychwyn i gynllunio ar gyfer yr ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mehefin '23

**Rheoli Prosiect:**

Penodwyd Rheolwr Prosiect ar 1 Ionawr 2019 er mwyn datblygu ac adeiladu'r ddau gynllun, a'i rôl ef yw cydlynu'r gweithgareddau dyddiol er mwyn sicrhau bod gofynion cyffredinol y prosiect ar gyfer y ddau gynllun yn cael eu bodloni.

Mae'r Rheolwr Prosiect yn adrodd yn uniongyrchol i'r Rheolwr Corfforaethol Gwasanaethau Priffyrdd a bydd yn arwain Tîm Prosiect a fydd yn cynnwys yr ymgynghorydd ar gyfer pob cynllun, ynghyd â'r Swyddog Arweiniol Corfforaethol a byddant yn cyfarfod bob mis.

Wrth i'r prosiectau symud tuag at weithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori gyda chymunedau lleol a rhanddeiliaid, efallai y bydd angen sefydlu grwpiau pellach o is-dimau er mwyn symud elfennau unigol o'r cynlluniau yn eu blaen, y bydd angen i Fwrdd Prosiect eu cymeradwyo.

Penodir Rheolwr Prosiect newydd yn fuan gan bod deiliad presennol y swydd yn ymddeol ac mae'r broses recriwtio yn mynd rhagddi.

**Diweddariadau Diweddaraf – Afonol**

**Teras Highmead / Llanybydder a Llandysul / Pont Tyweli**

Mae Ceredigion a Sir Gaerfyrddin, fel yr awdurdod arweiniol, wedi bod ac yn parhau i ddatblygu'r OBC a'r FBC ac mae gofyn cael cyllid ar ffurf grant LlC ar gyfer y gwaith ymgynghori arbenigol. Mae'r ddau Awdurdod wedi gweithio gyda ac ar ran NRW ar

y datblygiad hwn. Mae NRW yn gyfrifol am reoli risg llifogydd gan brif afonydd a'r môr.

Mae LIC bellach wedi cadarnhau y byddant yn darparu cronfa grant bellach ar gyfer y cam FBC. O ran amserlenni, nodir y bydd FBC yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024.
**RISG**. Nid yw'r FBC yn trosi yn waith adeiladu yn awtomatig ac mai NRW fydd yr awdurdod arweiniol yn dilyn y cam hwn.

**Erydu Arfordirol a Llifogydd**

Nodwyd Digwyddiadau Llifogydd ac Erydu Arfordirol ar y Gofrestr Risg Corfforaethol fel un o'r prif risgiau y mae ein preswylwyr, ein cymunedau a'n prif seilwaith yn ei wynebu mewn perthynas â newid hinsawdd a'r cynnydd a ragwelir yn nifer y stormydd a fydd yn digwydd.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn Awdurdod Diogelu'r Arfordir dan Ddeddf Amddiffyn y Glannau 1949, a dan y Ddeddf honno, mae ganddo bwerau caniataol i gyflawni Gwaith Diogelu'r Arfordir er mwyn diogelu tir mewn ffyrdd sy'n angenrheidiol yn ei farn ef.

Fel Awdurdod Diogelu'r Arfordir, mae'r Cyngor yn rheoli ac yn cynnal a chadw dros 12 cilomedr o amddiffynfeydd arfordirol artiffisial (waliau môr, morgloddiau, grwynau, waliau cynnal y graig ac ati) sy'n diogelu nifer o'n cymunedau arfordirol a seilwaith y mae'r Cyngor yn berchen arno. Mae hyn yn cynnwys strwythurau megis y promenâd yn Aberystwyth, y Pierau yng Ngheinewydd ac yn Aberaeron, a waliau môr amrywiol ar hyd arfordir Ceredigion.

Mae'r 84 cilomedr o arfordir sy'n weddill mewn perchnogaeth breifat, ac mae tirfeddianwyr preifat yn gyfrifol am ddiogelu eu heiddo nhw rhag erydu a llifogydd. Nid oes gan y Cyngor unrhyw gyfrifoldeb dros waith Amddiffyn Arfordirol ar gyfer eiddo preifat.

Mae Cyngor Sir Ceredigion yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i leihau'r risg i bobl ac i'r amgylchedd datblygedig a naturiol gan lifogydd ac erydu arfordirol, a dros y blynyddoedd diwethaf, mae wedi ymgymryd â chynlluniau mawr i amddiffyn yr arfordir yn Borth a Thraeth y Gogledd Aberaeron

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn datblygu cynlluniau amddiffyn yr arfordir pellach ar gyfer ffrynt Aberystwyth, ardal Harbwr/Traeth y De yn Aberaeron, Borth/Ynys-las (Cam 3) a Llangrannog.

**Rheoli Carbon a Newid Hinsawdd – Sero Net**

Mae Cynllun Gweithredu y Strategaeth Ynni Rhanbarthol bellach wedi cael ei gwblhau ac yn aros i gael ei gymeradwyo trwy gyfrwng y broses wleidyddol berthnasol (Bwrdd TCC a'r Cabinet). Penodwyd ESC (Catapwlt Systemau Ynni) i gyflawni'r Cynlluniau Ynni Ardal Lleol (LAEPs) ar gyfer Ceredigion a Phowys a chynhelir y gweithdy ymgysylltu cyntaf â rhanddeiliaid ar gyfer LAEP Ceredigion ym mis Ionawr.

Penodwyd Swyddog Ynni Rhanbarthol er mwyn helpu i gyflawni mewn perthynas â phroses LAEP a bydd hefyd yn gallu cynnig rhywfaint o gymorth i Geredigion wrth gyflawni rhai cynlluniau a fydd yn cyfrannu at ein huchelgais Sero Net.

Y Strategaeth ULEV a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd ar wefan y Cyngor dan 'Strategaethau a Chynlluniau' ar wefan y Cyngor.
http://www.ceredigion.gov.uk/media/12211/ulev-strategy-and-action-plan-2022.pdf

Mae'r broses o gyflawni Rhan 2 rhaglen pwyntiau gwefru EV cyhoeddus bellach wedi cael ei chwblhau. Mae'r pwyntiau gwefru newydd yn rhan o https://www.dragoncharging.co.uk/

Gwefru Depo (£300,000 - CLILC), rydym wedi gwneud cais am a chael dyfynbrisiau ar gyfer cysylltiadau grid Depo, ac rydym hefyd yn aros am adroddiad gan APSE i ymchwilio i gynlluniau depo, er mwyn sicrhau eu bod yn bodloni ein gofynion yn y dyfodol o ran seilwaith gwefru EV.

Bydd gofyn cael adnoddau ychwanegol wrth symud ymlaen er mwyn datblygu strategaeth gynhwysol ymhellach ar gyfer disodli'r fflyd, gyda'r nod o ddisodli'r fflyd presennol gyda fflyd ULEV, boed hyn yn drydan, hydrogen neu'n gyfuniad o'r ddau. Bydd y newid yn gofyn am ddiwygiadau/gwelliannau sylweddol i'r seilwaith ar gyfer y cyfleusterau a fydd yn ofynnol ar gyfer y newid hwn, gan gynnwys hyfforddiant.

Mae ceisiadau grant wedi cael eu paratoi a'u cyflwyno er mwyn ariannu Cam 3 rhaglen gwefru EV cyhoeddus yn FY2023/24 - ULEVTF Llywodraeth Cymru (£350,000) a OZEV Llywodraeth y DU ar gyfer grant ORCS (£60,000). Rydym yn aros am ganlyniad ceisiadau ar hyn o bryd.

Mae'r llythyr dyfarnu grant a gafwyd gan LIC (18/05/23) yn amlinellu'r cyllid sy'n cael ei ddarparu, ac mae'r prif ffeithiau fel a ganlyn.

- Cais 2023-24 (£350,000) wedi cael ei leihau, y dyfarniad yw £297,500 (gostyngiad o 15%)
- Dyfarnwyd cyllid newydd ar ffurf grant ar gyfer 2024-25, £370,000
- Dim cyllid cyfatebol tuag at gais arfaethedig ORCS am gyllid fel y gwelwyd yn ystod blynyddoedd blaenorol
- Bydd gofyn i CSC ychwanegu at gyllid grant ORCS OZEV er mwyn ychwanegu at ULEVTF LIC, yna efallai y bydd angen gofyn i CSC ddarparu

cyllid cyfatebol – felly, efallai y bydd gofyn i'r cais am gyllid ar ffurf grant ORCS OZEV gael ymrwymiad ariannol o £40,000 ar sail gwerth bwriadedig y cais

- Mae elfennau o raglen fwriadedig/ eitemau gwariant CSC ar gyfer 2023-24 wedi cael eu tynnu allan a'u rhoi yng nghyllid 2024-24 yn lle hynny, e.e., comisiynu cymorth ymgynghori a chyflogi Rheolwr Prosiect. Bydd CSC yn ymgysylltu â LIC am y mater hwn mewn ffordd weithredol

**Cynllun Gweithredu Sero Net**

Cyflwynwyd y diweddariad am Gynllun Gweithredu Sero Net i'r Pwyllgor Craffu ym mis Hydref 2022 ac fe'i cyflwynwyd i'r Cabinet yn gynnar ym mis Ionawr 2023. https://council.ceredigion.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=148&MId=291&Ver=4&LLL=0

Mae allyriadau gweithredol, fel yr amlinellwyd yn y Cynllun Rheoli Carbon, wedi cael eu cyfrifo ac maent yn cyfateb â gostyngiad cronnus o 20.48% yn erbyn targed o 15% (2017/18 i 2021/22). Roedd hyn er gwaethaf cynnydd o 11% yn 2021/22, o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol – hon oedd y duedd ddisgwyliedig wrth i bethau ddychwelyd i'r sefyllfa 'arferol' yn dilyn y pandemig.

Cwblhawyd gwaith adrodd am Allyriadau LIC ym mis Medi. Roedd hwn wedi cyfrifo ôl troed cyffredinol y Cyngor o ran allyriadau, ac mae'n cynnwys cwmpas llawer ehangach o allyriadau, sy'n cynnwys gwastraff, trafnidiaeth, ac allyriadau caffael, nad ydynt yn cael eu cynnwys yng nghwmpas y Cynllun rheoli Carbon. Pan fyddwn yn ystyried y cwmpas ehangach hwn o allyriadau, mae ein hôl troed yn codi i 45,723t T/CO2 y flwyddyn – mae allyriadau caffael a gwastraff yn gyfrifol am 76% o'r allyriadau hyn.

Mae costau ynni wedi codi yn sylweddol. Mae trydan wedi codi tua 70% ac mae Nwy wedi codi tua 300%, sy'n mynd i roi pwysau ar y gyllideb ar draws pob maes gwasanaeth.

**Teithio llesol**

Cyhoeddwyd Mapiau Rhwydwaith Teithio Llesol (ATNMs) wedi'u cymeradwyo ar wefan y Cyngor Sir. Darparu rhaglen Cronfa Teithio Llesol yn ystod BA2022/23 ar gyfer datblygu cynllun a mân waith (£500,000) a datblygu cynllun ar gyfer cyswllt cymuned ddiogel Llanrhystud wedi'i ariannu gan grant SRIC Llywodraeth Cymru (£40,000). Ceisiadau wedi'u paratoi a'u cyflwyno ar gyfer cyllid grant Llywodraeth Cymru yn ystod BA2023/24 gan gynnwys Grant Craidd ATF (£0.5M); Cam 1 Plas Gogerddan i Waunfawr (£1.5M); £50,000 SRICS am ddatblygiad cynllun parhaus yn Llanrhystud. Hysbysiad dyfarniad grant o £50,000 ar gyfer SRICS Llanrhystud ond yn aros am hysbysiad o ganlyniad ceisiadau eraill am grant ar hyn o bryd.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bu'r cais i Lywodraeth y DU ar gyfer uwchraddio a sicrhau adrannau newydd i 'Lwybr Cylch y Cardi' (Llwybr Ystwyth - (Aberystwyth i Dregaron) a Llwybr Aeron - (Aberaeron i Felin-fach) yn aflwyddiannus yn anffodus. Cyflawniad llwyddiannus dau gam cyntaf prosiect gwefru EV cyhoeddus a depo Ceredigion yn ystod BA2022/24 (cyllid ar ffurf grant gan CLILC a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU) ac yn aros am ganlyniad ceisiadau am grant ar gyfer BA2023/24 ar hyn o bryd.

Mae'r Tîm Cadwraeth wedi dwyn gwerth £1.6M o gyllid i'r Sir er 2019, a llwyddwyd i sicrhau £50,000 ychwanegol yn ddiweddar, sy'n cynnwys prosiectau a gaiff eu rhedeg gan CSC a phrosiectau a gaiff eu rhedeg gan drydydd partïon.

Mae swydd Rheolwr Gwasanaeth Datblygu Asedau i arwain y gwaith o reoli a datblygu asedau naturiol a masnachol Cyngor Sir Ceredigion newydd gael ei hysbysebu, a disgwylir i'r rôl gynnwys ystyried yr asedau er mwyn lleihau cyfraniad CSC i newid hinsawdd, effeithiau bioamrywiaeth a achosir gan newid hinsawdd ac effeithiau uniongyrchol ar fioamrywiaeth gymaint ag y bo modd, yn ogystal â chyfraniad CSC i weithgarwch lleihau effeithiau a gwella bioamrywiaeth.

| | | |
|---|---|---|
| | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os na, nodwch pam** | Bydd Adroddiad penodol am y Prosiect yn cynnig diweddariad am ddatblygiad y cynllun |
| **Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:** | ***Crynodeb:*** | |
| | **Tymor hir:** | Mae'r gwaith yn ceisio sicrhau hyfywedd ein cymunedau arfordirol yn y tymor hir |
| | **Integreiddio:** | Bydd y cynlluniau yn ceisio gwella'r gweithgarwch economaidd a'r cyfleoedd datblygu, a fydd yn gwella ac yn cynnal yr amgylchedd ar gyfer preswylwyr ac ymwelwyr. |
| | **Cydweithio:** | Gweithio gydag eraill gan gynnwys awdurdodau lleol eraill, y sector preifat, a Llywodraeth Cymru er mwyn cyflawni nodau, amcanion a thargedau. |
| | **Cynnwys:** | Ymgysylltu gyda a hysbysu'r cyhoedd o ymddygiad ac agweddau cadarnhaol. Cynhelir gweithgarwch ymgynghori llawn yn ystod camau datblygu priodol y cynlluniau. |
| | **Atal:** | Gweithio i leihau erydu arfordirol a difrod gan lifogydd yn ein cymunedau arfordirol. |

| | |
|---|---|
| **Argymhelliad (argymhellion):** | Nodi'r cynnydd sy'n cael ei sicrhau mewn perthynas â Chynlluniau Amddiffyn Afonol ac arfordirol a gwaith lliniaru er mwyn rhoi sylw i'r risgiau a achosir gan Newid Hinsawdd. |
| **Rhesymau dros y penderfyniad:** | Amherthnasol |

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt** | Phil Jones |
| **Swydd** | Rheolwr – Gwasanaethau Priffyrdd,<br>Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 22 Mai 2023 |

| Policy Unit ID | Policy Unit Name (Location) | Current Policy 0-20 yrs Short | Current Policy 20-50 yrs Medium | Current Policy 50-100 yrs Long | Action Reference | Action Description | Key Partners | Epoch for Action Delivery |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5.11 | Pen y Bal to Pencribach (Teifi) | HTL | HTL | HTL | CerCl/100 | Develop plan for land use at Cardigan | NRW | 0-20 yrs Short |
| 5.12 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 5.6 | Pen y Bal to Pencribach (Teifi) | NAI | NAI | NAI | CerCP/100 | Continue monitoring of the Teifi Estuary | Afon Teifi Fairways Committee<br>NRW<br>Pembs CC | 0-20 yrs Short |
| 5.7 | | HTL | HTL | MR | | | | |
| 5.8 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 5.9 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 5.12 | Pen y Bal to Pencribach (Teifi) | HTL | HTL | HTL | CerCP/120 | Realignment of Defences Upstream of Road Bridge | NRW | 0-20 yrs Short |
| 5.13 | | MR | MR | MR | | | | |
| 5.15 | Pen y Bal to Pencribach (Teifi) | NAI | NAI | NAI | CerCP/130 | Mwnt Monitoring and development of future management plan | NRW | 0-20 yrs Short |
| 6.1 | Pencribach to New Quay Head (Llangrannog) | NAI | NAI | NAI | CerCP/140 | Monitoring of coastline at Aberporth, Tresaith, Llangrannog and Cwmtydu | Wales Coastal Monitoring Centre | 0-20 yrs Short |
| 6.2 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 6.3 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 6.4 | | HTL | MR | MR | | | | |
| 6.5 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 6.6 | | HTL | MR | MR | | | | |
| 6.7 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 6.8 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 6.4 | Pencribach to New Quay Head (Llangrannog) | HTL | MR | MR | CerCP/142 | Initiate discussion relating to realignment at Tresaith | NRW<br>Tresaith CC | 0-20 yrs Short |
| 6.6 | Pencribach to New Quay Head (Llangrannog) | HTL | MR | MR | CerCP/145 | Support discussion around adaptation and realignment at Llangrannog | NRW<br>Llangrannog Welfare Committee | 0-20 yrs Short |
| 6.6 | Pencribach to New Quay Head (Llangrannog) | HTL | MR | MR | CerCP/146 | Develop approach to maintenance of beach and road defence at Llangrannog | NRW<br>Llangrannog Welfare Committee | 0-20 yrs Short |
| 6.8 | Pencribach to New Quay Head (Llangrannog) | HTL | HTL | HTL | CerCP/149 | Discuss and review SMP policy with respect to heritage and road at Cwmtydu | CADW | 0-20 yrs Short |
| 7.1 | New Quay Head to Gilfach yr Halen (New Quay) | MR | MR | NAI | CerCP/160 | Monitor beach profiles and cliff stability at New Quay and Cei Bach | Wales Coastal Monitoring Centre<br>WG | 0-20 yrs Short |
| 7.2 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 7.3 | | MR | MR | MR | | | | |
| 7.4 | | MR | MR | MR | | | | |
| 7.5 | | HTL | HTL | MR | | | | |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7.3 | New Quay Head to Gilfach yr Halen (New Quay) | MR | MR | MR | CerCP/165 | Future planning of New Quay Bay to include development control and management of coastal structures | NRW New Quay CC | 0-20 yrs Short |
| 7.4 | | MR | MR | MR | | | | |
| 7.1 | New Quay Head to Gilfach yr Halen (New Quay) | MR | MR | NAI | CerCP166 | Provide advice to residents on Rock Street, New Quay regarding adaptation | New Quay CC | 0-20 yrs Short |
| 7.5 | New Quay Head to Gilfach yr Halen (New Quay) | HTL | HTL | MR | CerCP/170 | Advice in relation to risk to property and private defences at Cei Bach | New Quay CC | 0-20 yrs Short |
| 8.1 | Gilfach yr Halen to Carreg Ti-pw (Aberaeron) | NAI | NAI | NAI | CerCP/180 | Monitoring of coastline between Aberaeron and Llanrhystud | Wales Coastal Monitoring Centre WG | 0-20 yrs Short |
| 8.2 | | HTL | HTL | MR | | | | |
| 8.3 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 8.4 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 8.5 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 8.6 | | HTL | MR | MR | | | | |
| 8.7 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 8.8 | | MR | MR | MR | | | | |
| 8.9 | | MR | MR | MR | | | | |
| 8.10 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 8.2 | Gilfach yr Halen to Carreg Ti-pw (Aberaeron) | HTL | HTL | MR | CerCP/190 | Discuss longer term management of defences | CADW NRW WG | 0-20 yrs Short |
| 8.3 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 8.4 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 8.3 | Gilfach yr Halen to Carreg Ti-pw (Aberaeron) | HTL | HTL | HTL | CerCP/191 | WFD mitigation of potential impacts | NRW | 0-20 yrs Short |
| 8.2 | Gilfach yr Halen to Carreg Ti-pw (Aberaeron) | HTL | HTL | MR | CerCP/195 | Develop strategic approach to management of South Beach, Aberaeron | WG | 0-20 yrs Short |
| 8.3 | Gilfach yr Halen to Carreg Ti-pw (Aberaeron) | HTL | HTL | HTL | CerCP/200 | Develop strategy for flood defence management around Aberaeron Harbour | CADW NRW WG | 0-20 yrs Short |
| 8.6 | Gilfach yr Halen to Carreg Ti-pw (Aberaeron) | HTL | MR | MR | CerCP/205 | Develop stratgey for management/adaptation of defences at Aberarth | NRW Landowners | 0-20 yrs Short |
| 8.7 | Gilfach yr Halen to Carreg Ti-pw (Aberaeron) | NAI | NAI | NAI | CerCP/210 | Provide advice on future management of coastline from Aberarth to Llanrhystud | CADW NRW | 0-20 yrs Short |
| 8.8 | | MR | MR | MR | | | | |
| 8.9 | | MR | MR | MR | | | | |
| 8.10 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 9.3 | Ti-pw to Sarn Gynfelyn | HTL | HTL | HTL | CerCP/220 | Monitoring of coastline along Aberystwyth frontage | Wales Coastal Monitoring Centre | 0-20 yrs Short |
| 9.4 | | HTL | HTL | MR | | | | |

Tudalen 18

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 9.7 | (Aberystwyth) | HTL | HTL | HTL | | Aberystwyth frontage | WG | |
| 9.8 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 9.9 | | HTL | HTL | ATL | | | | |
| 9.2 | Ti-pw to Sarn Gynfelyn (Aberystwyth) | MR | MR | NAI | CerCP/225 | Develop adaptation strategy and management proposals for Tanyblwch | NRW<br>Landowners<br>National Farmers Union Cymru | 0-20 yrs Short |
| 9.7 | Ti-pw to Sarn Gynfelyn (Aberystwyth) | HTL | HTL | HTL | CerCP/230 | Discuss future long term planning and management/funding of coastal defences | WG | 0-20 yrs Short |
| 9.8 | | HTL | HTL | HTL | | | | |
| 9.9 | | HTL | HTL | ATL | | | | |
| 9.3 | Ti-pw to Sarn Gynfelyn (Aberystwyth) | HTL | HTL | HTL | CerCP/231 | Discuss long term planning for Aberystwyth Harbour and Trefechan | WG | 0-20 yrs Short |
| 9.4 | | HTL | HTL | MR | | | | |
| 9.10 | Ti-pw to Sarn Gynfelyn (Aberystwyth) | NAI | NAI | NAI | CerCP/240 | Monitoring of Clarach frontage | NRW | 0-20 yrs Short |
| 9.11 | | MR | MR | MR | | | | |
| 9.12 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 9.13 | | NAI | NAI | NAI | | | | |
| 9.11 | Ti-pw to Sarn Gynfelyn (Aberystwyth) | MR | MR | MR | CerCP/250 | Develop adaptation strategy for Clarach | NRW<br>Landowners | 0-20 yrs Short |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

Eitem Agenda 4

## Cyngor Sir CEREDIGION

**ADRODDIAD I'R:** Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus

**DYDDIAD:** 22 Mehefin 2023

**LLEOLIAD:** Hybrid

**TEITL:** Creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff

**PWRPAS YR ADRODDIAD:** Cynnig creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwastraff Ceredigion

**Y RHESWM Y MAE CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** Ddim yn berthnasol

**CEFNDIR:**

Paratowyd strategaeth rheoli gwastraff diweddaraf y Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2018 a'r Strategaeth hon sydd wedi bod yn sail i waith y gwasanaeth rheoli gwastraff ers hynny.

Mae angen strategaeth newydd yn awr i amlinellu cyfeiriad y gwasanaeth at y dyfodol, gan roi sylw penodol i safleoedd gwastraff cartref y sir, y model nesaf ar gyfer casglu gwastraff wrth ymyl y ffordd a'r trefniadau ar gyfer gorsafoedd trosglwyddo gwastraff.

Mae'r gwaith sydd ynghlwm wrth ystyried opsiynau ar gyfer rheoli gwastraff yn y dyfodol yn gymhleth ac mae'r gwasanaeth rheoli gwastraff felly wrthi'n caffael cymorth gan ymgynghorwyr i arwain adolygiad eang o'r gwasanaeth.

Ystyrir mai'r gwasanaeth gwastraff yw un o wasanaethau pwysicaf a phroffil uchel y Cyngor i nifer o randdeiliaid a gall unrhyw newidiadau fod yn heriol ac yn ddadleuol. Mae'n bwysig felly i ni gytuno, o'r cychwyn cyntaf, sut y caiff yr adolygiad o'r gwasanaeth ei reoli a'i gyfathrebu o fewn y sefydliad, er mwyn sicrhau proses hwylus wrth wneud penderfyniadau.

Trafodwyd sgôp arfaethedig yr adolygiad yng nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 27 Gorffennaf 2022. Yn y cyfarfod, cytunwyd y byddai'r Gwasanaeth Gwastraff yn gweithio'n agos gyda'r Pwyllgor drwy gydol y broses o adolygu'r gwasanaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

Mae'r gwaith o gaffael gwasanaethau'r ymgynghorwyr wedi dechrau a bydd y swyddogion mewn sefyllfa yn fuan i ddyfarnu'r contract. Felly, ystyrir ei bod yn briodol yn awr i gytuno ar y ffordd orau o gynnwys yr Aelodau yn y prosiect fel y gallant

dderbyn diweddariadau rheolaidd oddi wrth y swyddogion ynglŷn â'r opsiynau sy'n cael eu harchwilio a'r cynigion sy'n cael eu hystyried.

Cynigir felly y dylid creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwastraff Ceredigion. Byddai'r gweithgor hwn yn adrodd yn ôl i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ar adegau priodol. Gofynnir i'r Pwyllgor felly gymeradwyo'r canlynol:

(i) creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i gynorthwyo â'r broses o ddod ag opsiynau rhesymol gerbron y system ddemocrataidd
(ii) enwebu 5 Aelod o'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus i gynrychioli'r Pwyllgor ar y Gweithgor gan sicrhau bod gan y grŵp gydbwysedd gwleidyddol a rhaniad trefol/gwledig priodol.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig?**<br>**Os naddo, nodwch pam** | **Naddo** |
| | ***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:**<br>**Cydweithio:**<br>**Cynnwys:**<br>**Atal:** | |

**ARGYMHELLIAD:** Creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:** Er mwyn creu Gweithgor ar gyfer y Gwasanaethau Gwastraff i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu Strategaeth Gwastraff Ceredigion

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | **Gerwyn Jones / Beverley Hodgett** |
| **Swydd:** | **Rheolwr Corfforaethol y Gwasanaethau Amgylcheddol / Rheolwr Gwasanaeth Amgylchedd Lleol** |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | **22 Mehefin 2023** |

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Welsh Local Government Association

Rhaglen Gwella Gwastraff



# Prosiect Cyllid Gwastraff 2021-22

# DRAFFT Gwasanaethau Gwastraff Cartref
# Crynodeb o'r Adroddiad - Ceredigion

# Nodiadau

**Mae adroddiadau cryno cyllid gwastraff unigol yn dangos gwariant a safbwynt y cyngor mewn perthynas â wasanaethau gwastraff cartref cynghorau eraill.**

**<u>Pwyntiau i’w nodi:</u>**

- Mae pob un o'r 22 o gynghorau yng Nghymru wedi eu cynrychioli yn yr adroddiad hwn. Dylid nodi bod y ffigyrau 2021-22 ar gyfer Wrecsam wedi eu hamcangyfrif.
- Mae costau casglu post yn cynnwys costau ar gyfer Trosglwyddo, Trin a Gwaredu.
- Mae’r ffigyrau yn yr adroddiad hwn yn cynnwys gwariant ychwanegol gan cynghorau wrth ymateb i’r pandemig.

  Roedd nifer fach o gynghorau wedi methu rhoi gwariant cysylltiedig Covid-19 yn eu datganiad cyllid ar gyfer WasteDataFlow, gan gynnwys Blaenau Gwent, Ceredigion a Wrecsam. Mae’n bwysig ystyried hyn wrth ddarllen yr adroddiad, oherwydd gall y cynghorau yma ddangos gwariant llai na gwir gost y gwasanaeth.

Mae rhagor o wybodaeth am Brosiect Cyllid Gwastraff CLILC ar gael yma: [Prosiect Cyllid Gwastraff - CLILC]

CLlLC WLGA

# Gorolwg - Gwasanaethau Gwastraff Cartref

£6.1M - Cyfanswm cost gwasanaeth net

£172.70 - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref

£3.32 - Cost gwasanaeth net cyfartalog fesul cartref yr wythnos

**Gwariant net**

2020-21 £6.2M ↘ 2021-22 £6.1M


-1.2%


**Cost net fesul cartref**

8fed cost isaf allan o 22 cyngor

2ail cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth



DRAFFT Cyllid Gwastraff Crynodeb o’r Adroddiad - Ceredigion 2021-22

CLlLC WLGA

# Ailgylchu Sych - Cyfanswm Gwasanaeth, Costau Casglu ac ar ôl Casglu

**£45.35** - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref


**Cost net fesul cartref**

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £50.58 | ↘ | £45.35 |
| | -10.3% | |


**Cost net fesul cartref**

- **8fed** cost isaf allan o 22 cyngor
- **3ydd** cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig
- **1af** cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Gwariant net ar wasanaethau ailgylchu sych fesul cartref, 2021-22**




**Costau casglu ailgylchu sych fesul cartref, 2021-22**





**Cost net casglu fesul cartref**

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £33.92 | ↘ | £31.80 |
| | -6.3% | |

**Cost net casglu fesul cartref**

- **7fed** cost isaf allan o 21 cyngor
- **3ydd** cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig
- **1af** cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Costau ar ôl casglu ailgylchu sych fesul cartref, 2021-22**




**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £16.66 | ↘ | £13.55 |
| | -18.6% | |

**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**

- **15fed** cost isaf allan o 21 cyngor
- **8fed** cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig
- **2ail** cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

Nid oedd un cyngor yn gallu torri costau gwasanaeth ailgylchu i lawr ac felly mae 21 cyngor yn cael eu cynrychioli mewn siartiau casglu ac ar ôl casglu.

CLlLC WLGA

# Gwastraff Bwyd - Cyfanswm Cost Gwasanaeth a Thunelli

£24.28 - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref

**Cost net fesul cartref**

2020-21 £25.60 → 2021-22 £24.28

-5.1%


**Cost net fesul cartref**

11eg cost isaf allan o 22 cyngor


5ed cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

### Gwariant net ar wasanaethau gwastraff bwyd fesul cartref, 2021-22




### Costau gasglwyd gwastraff bwyd fesul cartref, 2021-22




3,651 - Tunelli a gasglwyd ar ymyl palmant y flwyddyn

**kg gasglwyd fesul cartref**

2020-21 103kg → 2021-22 103kg

-0.3%

**kg gasglwyd fesul cartref**

10fed arenillion uchaf allan o 22 cyngor

5ed arenillion uchaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af arenillion uchaf allan o 2 cyngor Canolbarth

# Gwastraff Bwyd - Costau Casglu ac ar ôl Casglu

**Cost net casglu fesul cartref**

2020-21 £16.14 → 2021-22 £15.18

-6.0%


**Cost net casglu fesul cartref**

5ed cost isaf allan o 22 cyngor


1af cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Costau casglu gwastraff bwyd fesul cartref, 2021-22**




**Costau ar ôl casglu gwastraff bwyd fesul cartref, 2021-22**




**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**

2020-21 £9.46 → 2021-22 £9.10

-3.7%

**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**

19eg cost isaf allan o 22 cyngor

8fed cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

2ail cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

CLlLC WLGA

# Gwastraff Gweddilliol - Cyfanswm Gwasanaeth, Costau Casglu ac ar ôl Casglu

**£54.42** - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref

**Cost net fesul cartref**

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £54.73 | ↘ | £54.42 |
| | -0.6% | |


**Cost net fesul cartref**

6ed cost isaf allan o 22 cyngor


3ydd cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Gwariant net ar wasanaethau gwastraff gweddilliol fesul cartref, 2021-22**




**Costau casglu gwastraff gweddilliol fesul cartref, 2021-22**




**Cost net casglu fesul cartref**

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £13.40 | ↘ | £12.68 |
| | -5.3% | |

**Cost net casglu fesul cartref**

2ail cost isaf allan o 22 cyngor

1af cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £41.33 | ↗ | £41.74 |
| | 1.0% | |


**Cost net ar ôl casglu fesul cartref**

10fed cost isaf allan o 22 cyngor

4ydd cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

2ail cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth

**Costau ar ôl casglu gwastraff gweddilliol fesul cartref, 2021-22**



CLlLC WLGA

# Canolfan Ailgylchu Gwastraff Cartref - Cyfanswm Cost Gwasanaeth a Thunelli

**£41.85** - Cyfanswm cost gwasanaeth net fesul cartref

**Cost net fesul cartref**


| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| £37.49 | ↗ 11.6% | £41.85 |


**Cost net fesul cartref**

19eg cost isaf allan o 22 cyngor

8fed cost isaf allan o 10 cyngor Gwledig

2ail cost isaf allan o 2 cyngor Canolbarth




**6,969** - Mewnbwn tunnell y flwyddyn

**5,274** - Tunelli a ailgylchwyd y flwyddyn

**75.7%** - Cyfradd dargyfeirio

**kg mewnbwn fesul cartref**

| 2020-21 | | 2021-22 |
|---|---|---|
| 134kg | ↗ 45.9% | 196kg |

**kg mewnbwn fesul cartref**

7fed arenillion uchaf allan o 22 cyngor

2ail arenillion uchaf allan o 10 cyngor Gwledig

1af arenillion uchaf allan o 2 cyngor Canolbarth

# Eitem Agenda 5

## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus** |
| **DYDDIAD:** | **22 Mehefin 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Y Siambr / Hybrid** |
| **TEITL:** | **Y Gwasanaeth Rheoli Datblygu** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Darparu diweddariad ynghylch llwyth achosion cynllunio a gorfodi** |
| **Y RHESWM PAM FOD PWYLLGOR CRAFFU WEDI GOFYN AM YR WYBODAETH:** | **Gofynnodd yr Aelodau i'r swyddogion ddarparu diweddariad ynghylch llwyth achosion cynllunio a gorfodi** |

**CEFNDIR:**

Ym mis Rhagfyr 2022, cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus ynghylch y Gwasanaeth Rheoli Datblygu. Roedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar adolygiad Archwilio Cymru o'r Gwasanaeth Cynllunio yng Ngheredigion yn 2021.

Roedd yr adolygiad yn nodi 10 argymhelliad yn ymwneud â'r trefniadau llywodraethu a gwella capasiti'r gwasanaeth.

Mewn ymateb i'r argymhellion hynny ynghylch y trefniadau llywodraethu, adroddwyd bod newidiadau sylweddol i'r Cyfansoddiad wedi'u cytuno gan gynnwys Cylch Gorchwyl, Gweithdrefnau Gweithredol, Codau Ymarfer a Phwerau Dirprwyedig newydd. Esboniwyd bod hyfforddiant wedi'i ddarparu i bob Aelod ar ôl yr etholiadau ym mis Mai ac mae'r newidiadau hyn bellach wedi'u sefydlu ac mae'r gweithdrefnau a'r arferion wedi'u mabwysiadu'n dda.

Mewn ymateb i faterion ynghylch perfformiad, roedd yn rhaid edrych ar fynd i'r afael â materion ym mhedwar o brif feysydd y broses rheoli datblygu – dilysu, oedi o ran ymgyngoreion, ffosffadau a chapasiti staff i ddelio ag achosion.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL**

<u>Dilysu</u>

Cyfeiria dilysu at y cam lle caiff yr achosion eu gwirio i weld os ydy'r cynlluniau, dogfennau ategol a'r ffioedd priodol wedi'u darparu er mwyn cofrestru cais. Yn ddelfrydol, dylai achosion gael eu cofrestru o fewn wythnos wedi iddynt gael eu cyflwyno. Yn ystod yr adeg waethaf yn 2022, roedd y cam hwn o'r broses yn rhedeg 8 wythnos ar ei hôl hi, felly roedd achosion yn aml yn cyrraedd y swyddogion ar yr

adeg pan fyddai'r penderfyniadau fel arfer yn cael eu cyflwyno. Erbyn diwedd mis Rhagfyr 2022, aethpwyd i'r afael â hyn drwy hyfforddiant ac adnoddau ychwanegol ac roedd mwyafrif y ceisiadau'n cael eu cofrestru o fewn diwrnod neu ddau wedi iddynt gael eu cyflwyno. Llwyddwyd i gynnal y sefyllfa hon gyda 100% o geisiadau dilys yn cael eu cofrestru o fewn 7 niwrnod wedi iddynt gael eu cyflwyno rhwng mis Rhagfyr 2022 a diwedd mis Mai 2023.

Fodd bynnag, mae nifer sylweddol o geisiadau'n parhau i fod yn annilys. Felly mae staff yn treulio amser yn gofyn am ragor o wybodaeth neu'n dychwelyd y ceisiadau.

Ymatebion yr Ymgyngoreion a Ffosffadau

Adroddwyd bod y problemau capasiti yn yr adran ecoleg a'r anawsterau yn sgil ffosffadau wedi cyfrannu at ychydig o'r oedi wrth brosesu achosion. Er mwyn mynd i'r afael â'r broblem o ran capasiti, mae cymorth ychwanegol wedi'i ddarparu drwy secondiadau o'r Tîm Polisi Cynllunio a chytundeb gyda Chyngor Sir Powys sy'n darparu cymorth hefyd.

Mae ffosffadau'n parhau i fod yn fater anodd. Mae canllawiau newydd wedi arwain at glirio rhai achosion lle nad oes unrhyw fesurau lliniaru. Mewn achosion eraill, mae ffurflen yn cael ei defnyddio i gasglu gwybodaeth ychwanegol er mwyn mesur effaith y cynnig ar ffosffadau. Mae'n parhau i fod yn broses dechnegol sy'n cymryd llawer o amser.

Capasiti'r Staff a'r Defnydd o Ymgynghorwyr

Yn dilyn y problemau recriwtio, cyflogwyd ymgynghorwyr (Capita) ac ym mis Medi 2022 dechreuon nhw gynorthwyo'r tîm i brosesu ceisiadau cynllunio ac achosion gorfodi.

Pan roedd y niferoedd ar eu huchaf yn 2022, roedd 511 o geisiadau cynllunio'n aros a 550 o achosion gorfodi. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023 y llwyth achosion cynllunio oedd 382 achos ac roedd y llwyth achosion gorfodi wedi aros yn ei unfan ar 550 achos. Y targedau ar gyfer 2023/24 yw bod y llwyth achosion o ran ceisiadau cynllunio'n gostwng i 300 achos a bod y llwyth achosion gorfodi'n gostwng i 450 erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Darperir cyflwyniad byr yn y cyfarfod i roi gwybodaeth bellach i'r Aelodau ynghylch llwyth achosion, recriwtio a Safonau Rheoli Datblygu mewnol.

| | | |
|---|---|---|
| **LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:** | **A gwblhawyd Asesiad Effaith Integredig? Os naddo, nodwch pam**<br><br>***Crynodeb:***<br>**Hirdymor:**<br>**Integreiddio:** | Naddo gan mai trafodaeth yw hon ac nid yw'n ymwneud â chreu na datblygu polisi. |

**Cydweithio:**
**Cynnwys:**
**Atal:**

**ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**

**Nid oes unrhyw argymhellion ffurfiol, trafodaeth er gwybodaeth yn unig.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD / ARGYMHELLION:**

**Er mwyn rhoi diweddariad i'r Aelodau.**

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Russell Hughes-Pickering |
| **Swydd:** | Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Economi ac Adfywio |
| **Dyddiad yr adroddiad:** | 5 Mehefin 2023 |
| **Acronymau:** | |

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd Cyngor Ceredigion, Penmorfa, Aberaeron ac o bell ar Ddydd Mercher, 5 Ebrill 2023**

**Presennol:** Y Cynghorydd Gwyn Wigley Evans (Cadeirydd), Y Cynghorwyr Marc Davies (Is-gadeirydd), Gethin Davies, Meirion Davies, Rhodri Evans, Chris James, Maldwyn Lewis, Sian Maehrlein, Ann Bowen Morgan, John Roberts a Carl Worrall.

**Hefyd yn bresennol:** Y Cynghorwyr Keith Henson (Aelod Cabinet), Hugh Hughes, Gareth Lloyd, Wyn Thomas (Aelod Cabinet) a'r Athro Stuart Cole CBE.

**Swyddogion yn bresennol:** Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Priffyrdd; Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol, Gwasanaethau Amgylcheddol; Chris Wilson, Rheolwr Traffig, Diogelwch a Datblygu; Katy Spain, Rheolwr Gwasanaeth- Gwasanaethau Trafnidiaeth; Nia Barker, Swyddog Trafnidiaeth; Lowri Edwards, Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Gwasanaethau Democrataidd; Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau; Dwynwen Jones, Swyddog Trosolwg a Chraffu a Neris Morgans, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

(10.00am- 12.54pm)

**1 Ymddiheuriadau**

Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

**2 Datgelu buddiant personol (gan gynnwys datganiadau chwipio) Atgoffir aelodau am eu cyfrifoldeb personol yn datgan unrhyw fudd personol a budd sydd yn rhagfarnu yn gysylltiedig â materion a gynhwysir yn yr agenda hwn yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2000, Cyfansoddiad y Cyngor a Chod Ymddygiad Aelodau. Yn ogystal, mae'n rhaid i Aelodau ddatgan unrhyw chwip plaid gwaharddedig a roddwyd ar Aelod yng nghyswllt y cyfarfod yn ôl Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**

i. Datganodd y Cynghorydd Chris James fuddiant personol mewn perthynas ag eitem 4.
ii. Datganodd Lisa Evans, Swyddog Craffu a Safonau fuddiant personol a buddiant sy'n rhagfarnu mewn perthynas ag eitem 4, yn unol â'r Cod Ymddygiad ar gyfer Gweithwyr Llywodraeth Leol a gadawodd y cyfarfod pan oedd y mater hwnnw'n cael ei drafod.

**3 Y diweddaraf am deithio llesol - Ebrill 2023 a defnyddio hen linellau rheilffordd ar gyfer seiclo / cerdded**

Esboniodd y Cynghorydd Keith Henson (Aelod Cabinet Priffyrdd, Gwasanaethau Amgylcheddol a Rheoli Carbon) taw pwrpas yr adroddiad oedd darparu diweddariad ar y datblygiadau ers y drafodaeth / adroddiad blaenorol. Cynhaliwyd cyfarfod gyda Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd ar 1 Rhagfyr 2022 er mwyn darparu trosolwg o Deithio Llesol yng Ngheredigion. Ar hyn o bryd dim ond tri Anheddiad Teithio Llesol sydd yng Ngheredigion a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 (sef Aberystwyth, Aberteifi a Llanbedr Pont Steffan) felly roedd yn ddymuniad i ymestyn hyn. Diolchwyd i'r gwasanaeth

am ddatblygu'r gwaith i wella hygyrchedd Teithio Llesol a diogelwch ar gyfer y Sir.

Esboniodd Phil Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Priffyrdd fod Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 yn rhoi dyletswydd ar awdurdodau lleol i gynllunio, gwella a hyrwyddo llwybrau cerdded a seiclo ar gyfer siwrneiau bob dydd. Roedd yr awdurdod yn ddiolchgar i Lywodraeth Cymru am yr arian i wella'r rhwydwaith Teithio Llesol ond byddai cael gwell cynllun ar gyfer y 3 – 5 mlynedd nesaf o fudd i bawb. Darparwyd trosolwg o'r cefndir a nodwyd yn yr adroddiad. Yn sgil y dyheadau i wella'r cysylltiadau rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth, cafwyd sicrwydd oddi wrth Elin Jones AC a Ben Lake AS mewn cyfarfod yn ddiweddar na chaiff yr argymhellion yma eu datblygu am nifer sylweddol o flynyddoedd, felly yn ei hanfod roedd yn bosib parhau i ymestyn Teithio Llesol ar y llinellau hynny.

Rhoddwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau a bu i'r Swyddogion, Yr Athro Stuart Cole CBE a'r Cynghorydd Keith Henson eu hateb. Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Bu i'r Athro Stuart Cole CBE esbonio er nad oedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau a oeddent yn bwriadu datblygu'r rheilffordd o Gaerfyrddin i Aberystwyth fydd yn costio oddeutu £800 miliwn, nid oedd digon o arian nac ychwaith digon o boblogaeth i redeg y rheilffordd, a dyna phaham oedd T1 TrawsCymru mewn lle. Roedd o'r farn ei fod yn annhebygol iawn y caiff y rheilffordd ei datblygu yn y 30 – 40 mlynedd nesaf.
- Roedd yn bwysig iawn i godi pryderon gyda Llywodraeth Cymru / Llywodraeth y DU am y diffyg sicrwydd o ran ffynonellau ariannu. Yn ogystal byddai ymlacio ymhellach ar y cyfyngiadau o fudd i'r Sir yn gyfan gwbl, ac nid yn unig y tair thref a enwyd fel Aneddiadau Teithio Llesol. Bydd hefyd yn caniatáu awdurdodau lleol i gynllunio adnoddau'n well a chyflawni yn lleol.
- Cefnogwyd defnyddio pwerau Gorchymyn Prynu Gorfodol a all fod eu hangen er mwyn cael tir ar gyfer llwybrau cerdded a seiclo. Er iddo cael ei ystyried yn broses hir a chymhleth, roedd defnyddio Gorchymyn Prynu Gorfodol law yn llaw â thrafodaethau yn bwysig ar gyfer cyflawni cynllunio o fewn y Sir. Gwnaed gwaith yn y cefndir i ddatblygu hyn gan gynnwys lleoliad Rhiw Goch, Aberaeron.
- Nodwyd na fyddai pob llwybr yn denu arian o'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) felly roedd yn rhaid edrych ar ffynonellau arian eraill hefyd. Ni dderbyniwyd adborth eto yn dilyn grant aflwyddiannus ar gyfer *Cylch y Cardi* Cyfnod Prawf 1 Y Gronfa Ffyniant Bro 2 (LUF2) (Trafnidiaeth).
- Cyflwynwyd cais i'r Gronfa Teithio Llesol am 100% o'r arian ar gyfer cam cyntaf o'r gwaith ar lwybr teithio llesol arfaethedig o IBERS i Waun Fawr. Roedd gwaith yn mynd yn ei flaen i sicrhau tir ar gyfer y trywydd a ffefrir.
- Gan nad oedd yn ymddangos fod cynlluniau mewn lle i wella'r llwybr o Gastell newydd Emlyn i Lechryd, nodwyd gan Swyddogion y byddant yn darparu diweddariad i'r aelod lleol maes o law.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r adroddiad.

4 **Rhwydwaith Bysiau Ceredigion**

Esboniodd y Cynghorydd Keith Henson fod Llywodraeth Cymru yn rheoli cyfran fawr o’r system drafnidiaeth yng Nghymru a bod y diwydiant trafnidiaeth ar hyn o bryd yn wynebu amser heriol. Darparwyd trosolwg o gynnwys yr adroddiad gan gynnwys cyd-destun lleol ac ehangach.

Dywedodd Gerwyn Jones, Rheolwr Corfforaethol: Gwasanaethau Amgylcheddol y cyflwynwyd yr adroddiad i’r Cabinet ar 14 Chwefror 2023. Darparwyd cyflwyniad i’r Pwyllgor yn amlinellu’r canlynol:

- Cefndir
- Rhwydwaith Cyfredol / Cyn Covid Ceredigion
- Cryfderau / Gwendidau
- Cyfleodd / Bygythiadau
- Tymor Byr / Canolig / Hir
- Rhwydwaith Ceredigion yn y Dyfodol?
- Ystyriaethau
- Brandio TrawsCymru/ BwcaBws
- Gwybodaeth ar Drafnidiaeth
- Trosi i ULEV

Nodwyd gan yr Athro Stuart Cole CBE fod y sefyllfa’n debyg mewn nifer o leoliadau er bod y dull i’w datrys yn wahanol ar gyfer bob awdurdod lleol, ond roedd yn debyg ar gyfer ardaloedd gwledig megis Ceredigion ac awdurdodau a oedd yn ffinio. Adroddwyd fod Covid-19 wedi cael effaith sylweddol ar y nifer o bobl a oedd yn teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus, gan gynnwys TrawsCymru. Yn dilyn cyflwyno BwcaBws yn 2008, gwnaed ymchwil ar drafnidiaeth cyhoeddus mewn ardaloedd gwledig ac o ganlyniad, cyflwynwyd TrawsCymru yn 2012, gyda BwcaBws a bysiau lleol yn bwydo’r rhwydwaith. Bu i 2.6miliwn o deithwyr deithio ar TrawsCymru yn 2019, sef cynnydd sylweddol i’r niferoedd cyn 2012, fodd bynnag nid oedd teithwyr wedi dychwelyd i’r niferoedd cyn Covid, gan gynnwys trywydd T1 (Caerfyrddin - Aberystwyth) a oedd ond wedi dychwelyd i 60% o’i defnydd blaenorol. Roedd pa mor aml, pa mor ddibynadwy ac a ellir archebu’r gwasanaeth yn elfennau allweddol i ddenu mwy o deithwyr yn ogystal â hygyrchedd megis arwyddion gwybodaeth ac amserlenni.

Adroddwyd er bod Lee Waters AC, Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd yn awyddus i fwy o bobl deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus roedd gwahaniaeth clir iawn rhwng y gwasanaethau oedd ar gael mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd trefol. Roedd y cymhorthdal ar gyfer cludo deiliaid Cardiau Teithio Rhatach yn fach iawn i gymharu â phris y tocyn ond gobeithir na fyddai Llywodraeth Cymru yn gorffen y Cytundeb.

Darparwyd cyfle i Aelodau ofyn cwestiynau ac fe’u hatebwyd gan Swyddogion, yr Athro Stuart Cole CBE a’r Cynghorydd Keith Henson. Roedd y prif bwyntiau a godwyd fel a ganlyn:

- Bydd proses gaffael yn dechrau’n fuan ar gyfer y llwybrau y mae Cyngor Sir Ceredigion yn gyfrifol amdanynt, gyda'r nod i’r contractau newydd fod mewn lle erbyn mis Medi 2023. Rhybuddiwyd gan

Swyddogion ei fod yn bosib y bydd y sefyllfa'n gwaethygu eto cyn y gwelir unrhyw welliannau ac y bydd hyn yn heriol i'r dyfodol.

- Nodwyd fod y gwasanaeth *Megabus* a oedd yn mynd o Aberystwyth i Lundain cyn Covid-19 yn cael ei redeg gan *Stagecoach*, sef cwmni masnachol felly nid oedd unrhyw ofyniad ar y cwmni i ail-ddechrau'r gwasanaeth ar ôl Covid-19. Roedd cwmnïau masnachol yn rhedeg gwasanaethau ar sail elw'r trywydd fodd bynnag os oedd galw am y gwasanaeth mae'n bosib fod gwerth trafod gyda'r cwmni.
- Codwyd pryderon am y newidiadau i wasanaeth 585 (Aberystwyth-Tregaron- Llanbedr Pont Steffan) am taw'r ddau fws a dynnwyd oddi ar yr amserlen oedd y bysiau a oedd yn addas ar gyfer yr henoed sy'n dibynnu ar y gwasanaeth. Esboniodd Swyddogion er nad oedd y gwasanaeth yn ddelfrydol, petasai trafodaethau heb gael eu cynnal gyda'r cwmni a oedd yn rhedeg y trywydd, ni fyddai gwasanaeth ar gael o gwbl.
- Dylai trafnidiaeth gyhoeddus fod ar gael i bawb ac roedd yn bwysig sicrhau fod yr anabl a'r henoed yn medru cael mynediad i fysiau heb unrhyw anhawster.
- Er gweledigaeth Llywodraeth Cymru i gynyddu defnydd trafnidiaeth gyhoeddus codwyd pryderon am y diffyg arian oedd ar gael i gyflawni hyn yn enwedig mewn ardaloedd gwledig, felly roedd rhaid codi hyn gyda Llywodraeth Cymru.
- Ar hyn o bryd, roedd awdurdodau lleol yn ymgymryd â gwaith comisiynu ar ran TrawsCymru, ond bydd Trafnidiaeth Cymru yn raddol yn ymgymryd â'r rôl yma. Bydd lefel y gwasanaeth yn ddibynnol ar arian oddi wrth Lywodraeth Cymru.
- Roedd trafodaethau o ran ULEV/ hydrogen yn parhau, a rhoddwyd ystyriaeth i rôl trydan a'r diffyg capasiti o ran y Grid Trydan. Wythnos ddiwethaf roedd 8 bws trydan yn rhedeg ar drywydd T1 TrawsCymru (Aberystwyth-Caerfyrddin) gyda chyfleusterau gwefru yng Nghaerfyrddin. Roedd Aberystwyth wedi ei glustnodi fel hwb gan TrawsCymru, felly roedd Llywodraeth Cymru a Thrafnidiaeth Cymru yn archwilio opsiynau i'r dyfodol. Er nad oes dyddiad wedi ei osod gan Drafnidiaeth Cymru i drosi'r fflyd i ULEV, roedd yn hanfodol sicrhau bod y seilwaith cywir mewn lle. Yn ogystal roedd gwaith yn parhau i obeithio creu cyfnewidfa drafnidiaeth yn Synod Inn, a fydd o bosib yn cynnwys opsiwn i wefru cerbydau.
- Amlygwyd y gall y ddadl amgylcheddol i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus ddod i ben os byddai pob car yn cael eu trosi i drydan neu hydrogen. Yn sgil hyn nodwyd taw'r nod gyffredinol yn amgylcheddol oedd lleihau'r angen i deithio, a oedd wedi gostwng yn sylweddol o ganlyniad i Covid-19.
- Roedd cynnig i drafod rhwydwaith bysiau Ceredigion wedi ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 20 Ebrill 2023.

Diolchodd y Cynghorydd Keith Henson i'r Swyddogion a oedd yn bresennol am eu gwaith gan nodi ei fod yn amlwg fod nifer o heriau o fewn y Sir a thu hwnt. Diolchwyd hefyd i'r Athro Stuart Cole CBE am ei fewnbwn o bersbectif Cenedlaethol. Roedd arian a newid yn agwedd y cyhoedd i ddeall manteision teithio ar Drafnidiaeth Cyhoeddus yn rhanbarthol yn hanfodol ond roedd y

gallu i deithio'n lleol hefyd yn bwysig iawn. Ers lansio bysiau trydan T1 TrawsCymru yr wythnos ddiwethaf bu'r adborth yn bositif, ac er mwyn symud ymlaen bydd angen i Lywodraeth Cymru gynnal trafodaethau gyda chyflenwyr oherwydd yr amser hir fydd angen aros i dderbyn cerbydau ar ôl eu harchebu. Yn ogystal codwyd pryderon am gapasiti'r grid gyda'r Grid Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru a bu i'r Adolygiad Cod Sylweddol ddod i rym yn ddiweddar iawn.

Bu i'r Cadeirydd hefyd ddiolch i bawb fu'n rhan o'r gwaith gan esbonio y bu'r cyfarfod o fudd er mwyn cael dealltwriaeth lawn o'r mater.

Yn dilyn cwestiynau gan Aelodau'r Pwyllgor, cytunwyd i nodi'r canlynol:

1. Y pwysau a'r sialensiau acíwt a niferus y mae'r diwydiant trafnidiaeth cyfan yn eu hwynebu, ac sy'n cael eu gwaethygu yn lleol
2. Y pwysau dilynol sy'n codi ar y Cyngor a'r Gwasanaeth er mwyn ceisio rheoli'r sefyllfa, sy'n cynnwys disgwyliadau rhanddeiliaid a'r amserlenni sy'n gysylltiedig gyda phenderfyniadau a chamau gweithredu sy'n cael eu cymryd.
3. Y camau sy'n cael eu cymryd gan y Gwasanaeth i reoli'r sefyllfa a lleihau'r hyn a fydd yn orwariant arwyddocaol yn ystod y flwyddyn 2022/23.
4. Y dull gweithredu sy'n cael ei fabwysiadu gyda'r nod o ddarparu gwasanaethau o fewn y gyllideb sydd wedi cael ei neilltuo.

**5 Cadarnhau Cofnodion y Cyfarfod blaenorol ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi o'r Cofnodion**

Cytunwyd i gadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Mawrth 2023.

Materion sy'n codi: Dim.

**6 Ystyried Rhaglen Flaen Trosolwg a Chraffu**

Cytunwyd nodi cynnwys y Flaen raglen Waith a gyflwynwyd, yn ddibynnol ar gynnwys y canlynol:

- Adroddiad ar dwristiaeth yng Ngheredigion
- Yn sgil diffyg ymateb o Gyfoeth Naturiol Cymru i weld a oeddent ar gael ar 22 Mehefin 2023, awgrymwyd y dylai Swyddog gysylltu â nhw eto.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Ffyniannus a gynhaliwyd ar 22 Mehefin 2023**

**Cadeirydd:________________**

**Dyddiad:_________________**

Mae'r dudalen yn wag yn fwriadol

# Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau Sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **22 Mehefin 2023** |
| **LLEOLIAD:** | **Hybrid** |
| **TEITL:** | **Blaenraglen Waith Ddrafft 2023/24** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Adolygu rhaglen waith bresennol y Pwyllgor** |
| **Y RHESWM PAM FOD CRAFFU WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH HON:** | **Mae blaenraglen waith y Pwyllgor yn cael ei harolygu a'i diweddaru ymhob cyfarfod** |

**CEFNDIR:**

Mae'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu'n goruchwylio gwaith y Cyngor er mwyn sicrhau y darperir gwasanaethau yn y ffordd orau posib a hynny er budd y gymuned leol.

Swyddogaeth Trosolwg a Chraffu yw ystyried y gwasanaethau a'r materion sy'n effeithio ar bobl yng Ngheredigion. Mae'r broses yn rhoi cyfle i Gynghorwyr archwilio amryw swyddogaethau'r Cyngor, holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, ystyried os ellir gwneud gwelliannau i wasanaethau a gwneud argymhellion yn unol â hynny.

Mae craffu'n hanfodol wrth hyrwyddo atebolrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth i'r Cyngor fynd ati i wneud penderfyniadau a'r ffordd mae'n darparu gwasanaethau.

Prif swyddogaethau'r Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu yw'r canlynol:

- Galw'r Cabinet a'r Swyddogion i gyfrif ynghylch eu penderfyniadau
- Bod yn 'gyfaill beirniadol', drwy holi cwestiynau am sut y gwnaethpwyd penderfyniadau, fel bod y bobl sy'n penderfynu'n destun 'rhwystrau a gwrthbwysau', gan wneud y drefn o benderfynu yn fwy dilys
- Cynnal adolygiadau o wasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Cynnal adolygiadau ar gyfer datblygu gwasanaethau a pholisïau'r Cyngor
- Ystyried unrhyw fater arall sy'n effeithio ar y sir
- Sicrhau bod Ceredigion yn perfformio hyd eithaf ei allu ac yn darparu gwasanaethau o'r radd flaenaf i'w ddinasyddion
- Asesu effaith polisïau'r Cyngor ar gymunedau lleol, ac argymell ffyrdd o wella
- Gweithio gyda'r cyhoedd i ddatblygu polisïau a gwasanaethau sy'n canolbwyntio ar y dinasyddion.

Gall trefn effeithiol o Drosolwg a Chraffu arwain at y canlynol:

- Penderfyniadau gwell
- Gwelliant o ran Darparu Gwasanaethau a Pherfformiad
- Trefn gadarn ar gyfer Datblygu Polisïau, yn seiliedig ar ymgynghori â'r cyhoedd a chyfraniad arbenigwyr annibynnol
- Gwelliant o ran Democratiaeth, Cynhwysiant, Arweinyddiaeth Gymunedol ac Ymgysylltu
- Ychwanegu haen eglur o dryloywder ac atebolrwydd i brosesau gwleidyddol y Cyngor
- Rhoi cyfle i bob Aelod feithrin sgiliau a gwybodaeth arbenigol a allai fod o fudd yn y dyfodol wrth lunio polisïau a monitro perfformiad
- Creu diwylliant o hunan-herio ar sail tystiolaeth.

**Y SEFYLLFA BRESENNOL:**

**Cwestiynau i'w hystyried wrth ddewis pynciau**

- A oes amcan clir dros archwilio'r pwnc hwn?
- Ydych chi'n debygol o lwyddo i gael y canlyniad a ddymunir?
- Beth yw'r manteision tebygol i'r Cyngor a dinasyddion Ceredigion?
- Ydy'r mater yn un sylweddol?
- Oes yna gysylltiadau â'r Strategaeth Gorfforaethol?
- A yw'n fater allweddol i'r cyhoedd?
- Ydy'r materion wedi cael eu codi gan archwiliad allanol?
- A yw'n wasanaeth sy'n perfformio'n wael?

**Dewis pynciau**
Dylai Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu ystyried gwybodaeth o'r Strategaeth Gorfforaethol, Cynllun Gwella, Cynllun Strategol, Cynlluniau Gwasanaeth, y Gofrestr Risg Gorfforaethol, arbedion yn y gyllideb – cynigion ac effaith, cyfarfodydd chwarterol y panel Rheoli Perfformiad Corfforaethol a mewnbwn adrannol wrth ddewis pynciau a chynllunio eu Blaenraglenni Gwaith, ynghyd ag unrhyw waith sy'n parhau.

**ARGYMHELLIAD (ARGYMHELLION):**

Adolygu a diweddaru'r Blaenraglen Waith bresennol.

| | |
|---|---|
| **Enw Cyswllt:** | Lisa Evans |
| **Dynodiad:** | Swyddog Craffu a Safonau |
| **Dyddiad yr Adroddiad:** | 30/03/2023 |
| **Acronymau:** | BW- Blaenraglen Waith<br>FWP- Forward Work Programme |

Blaenraglen Waith y Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu 2022/23

| Pwyllgor | Eitem (disgrifiad/teitl) | Siaradwyr Gwadd | Pwrpas e.e. monitro, polisi, argymhellion |
|---|---|---|---|
| ***Cymunedau Ffyniannus*** | | | |
| 22 Mehefin 2023 | Newid Hinsawdd ac Erydu Arfordirol / Llifogydd (o'r gofrestr risgiau)<br><br>Creu Grwp Gweithio Gwasanaeth Gwastraff<br><br>Diweddariad ar lwyth achosion Rheoli Datblygu a Gorfodi | Phil Jones<br>Gwahoddiad i Adnoddau Naturiol Cymru<br><br>Rhodri Llwyd<br><br>Russell Hughes Pickering | |
| 31 Gorffennaf 2023 | Adroddiad ar yr opsiwn o ganiatáu 2 awr o barcio am ddim cyn 11am (o’r cyfarfod cyllideb)<br><br>Gwasanaeth Gaeaf<br><br>Dwr Cymru | <br><br><br><br>Gwahoddiad i Dwr Cymru | |
| 23 Hydref 2023 | Adolygu Polisi Rheoli Harbyrau | Gerwyn Jones | |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 18 Rhagfyr 2023 | | | |
| 23 Chwefror 2024 | Cyllideb | | |
| 18 Mawrth 2024 | | | |
| Cyfarfodydd y dyfodol | Awgrymiadau:<br>Effaith cynlluniau a ariennir gan grant – beth yw'r effaith, pa mor dda mae arian yn cael ei dynnu i lawr<br><br>Defnydd o le – sut allwn ni ei wneud yn fwy bywiog, cynyddu incwm<br><br>CDLI<br><br>Adolygu strategaeth toiledau cyhoeddus | | |